# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 7 MAWRTH 2016

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Tudor Owen, Ann Williams, Elfed W. Williams ac Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Dilwyn Lloyd, Peter Read a John Wyn Williams a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Mewn ymateb i bryder ynglŷn â hyfforddiant priodol i yrwyr tacsi nodwyd bod Grŵp Gogledd Cymru wedi cydweithio gyda Barnardos a Heddlu Gogledd Cymru i lunio rhaglen hyfforddiant mewn ymateb i Adroddiad Rotherham (cyd-destun Cam-ymddwyn yn Rhywiol gyda Phlant).

Adroddwyd bod Conwy eisoes yn gosod amod ar drwyddedau gyrru i'r gyrwr fod â chymhwyster gyrru tacsi (BTEC Lefel 2). Amlygwyd bod y cymhwyster yma yn cynnwys elfennau megis iechyd a diogelwch, gofal cwsmer, cludo a llwytho parseli a chludo plant ac oedolion bregus, a bod dwy flynedd yn cael ei osod fel cyfnod cwblhau. Nodwyd bod Gwynedd wedi adnabod yr angen yma ac awgrymwyd, wrth adolygu'r polisïau y bydd hyn yn cael ei ystyried.

Croesawyd cyfeiriad yr Uned Trwyddedu i'r maes hyfforddiant i yrwyr tacsi a gwnaed cais i'r uned rannu gwybodaeth am gynnwys yr hyfforddiant gyda'r aelodau.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 1af o Ragfyr 2015 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i'r cais a wnaed am wybodaeth o ddefnydd waledi oren ar gludiant cyhoeddus lle defnyddir cardiau pwrpasol i gyfathrebu gyda darparwyr cludiant, adroddwyd bod Grŵp Gogledd Cymru wedi cynnig darpariaeth debyg ar gyfer taith mewn tacsi.

Derbyniwyd bod hyn yn ymarfer da.

## 5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 12.11.15

## 6. ADOLYGU POLISIAU TACSIS CYNGOR GWYNEDD

**- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol**
**- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat**
**- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu ar y gwaith o adolygu'r polisïau trwyddedu i greu polisi unedig. Adroddwyd, oherwydd ymarferiad Ffordd Gwynedd gan y gwasanaeth i adolygu eu prosesau gwaith er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn sydd yn cael ei weithredu, bod y gwaith adolygu wedi llithro ychydig a bod bwriad parhau gyda'r adolygiad pan fydd yr ymarferiad wedi ei gwblhau.

Er hynny, manteisiwyd ar y cyfle i adrodd y byddai un newid tebygol yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad sef y gofyn am brawf lleol i gerbyd. Nodwyd y byddai'r prawf yma yn ychwanegol i'r un syml sydd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd - yn gosod canllawiau manwl a phenodol ar gyflwr y cerbyd (tu mewn a thu allan) i sicrhau ei fod yn ddiogel a derbyniol i'r llygad. Adroddwyd bod VOSA (*Vehicle and Operator Services Agency*) wedi awgrymu i bob Cyngor weithredu y prawf yma ac amlygwyd bod rhai Cynghorau eisoes wedi ei fabwysiadau. O ganlyniad gellid ystyried dileu 'rhwystredigaethau oedran cerbyd' gan ystyried <u>cyflwr</u> y car yn unig.

Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd y byddai ymarferiad Ffordd Gwynedd yn adnabod rhwystrau o fewn y gwasanaeth cyfredol a'r angen i ymateb iddynt yn effeithiol.

Diolchwyd i'r Uned Trwyddedu am eu gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.50 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

______________________________

**CADEIRYDD**